

Taflen Ffeithiau Cymhwyster

Trosolwg o'r cymhwyster

Teitl y cymhwyster	NCFE Tystysgrif Ragarweiniol Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/2) NCFE Tystysgrif Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/3) NCFE Diploma Rhagarweiniol Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/4) NCFE Diploma Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/5) NCFE Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5382/6)		
Cyfanswm amser y cymhwyster (CAC)	Tystysgrif Ragarweiniol: 240 Tystysgrif: 480 Diploma Rhagarweiniol: 720 Diploma: 960 Diploma Estynedig: 1440	Oriau dysgu dan arweiniad (ODDA)	Tystysgrif Ragarweiniol: 180 Tystysgrif: 360 Diploma Rhagarweiniol: 540 Diploma: 720 Diploma Estynedig: 1080
Gofynion mynediad	Does dim gofynion mynediad penodol, fodd bynnag, efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r dysgwyr fod wedi ennill cymhwyster lefel 2 yn barod. Mae'r cymwysterau hyn wedi'u bwriadu'n bennaf ar gyfer dysgwyr rhwng 16 a 19 oed fel rhan o raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru.		

Gwybodaeth am y cymwysterau hyn

Mae'r cymwysterau hyn yn canolbwyntio ar astudio'r diwydiant teithio a thwristiaeth, gan gynnig ehangder a dyfnder astudio sy'n ymgorffori sylfaen allweddol o wybodaeth. Maent hefyd yn darparu cyfleoedd i'r dysgwyr ddatblygu sgiliau ymarferol a throsglwyddadwy sy'n berthnasol i astudiaethau pellach a'r gweithle. Maent yn rhoi dealltwriaeth fanwl i'r dysgwyr o egwyddorion y diwydiant teithio a thwristiaeth, ac yn eu galluogi i archwilio'r gwahanol lwybrau gwaith yn y diwydiant hwn.

Strwythur y cymhwyster

Tystysgrif Ragarweiniol

Mae'n ofynnol i'r dysgwyr lwyddo i gyflawni 3 uned o'r unedau gorfodol sy'n cael eu graddio.

Tystysgrif

Mae'n ofynnol i'r dysgwyr lwyddo i gyflawni 3 uned o'r unedau gorfodol sy'n cael eu graddio, a 3 uned o'r unedau dewisol sy'n cael eu graddio.

Diploma Rhagarweiniol

Mae'n ofynnol i'r dysgwyr lwyddo i gyflawni 3 uned o'r unedau gorfodol sy'n cael eu graddio, a 6 uned o'r unedau dewisol sy'n cael eu graddio.

Diploma

Mae'n ofynnol i'r dysgwyr lwyddo i gyflawni 3 uned o'r unedau gorfodol sy'n cael eu graddio, a 9 uned o'r unedau dewisol sy'n cael eu graddio.

Diploma Estynedig

Mae'n ofynnol i'r dysgwyr lwyddo i gyflawni 3 uned o'r unedau gorfodol sy'n cael eu graddio, a 15 uned o'r unedau dewisol sy'n cael eu graddio.

Unedau gorfodol

Uned 01 Diwydiant teithio a thwristiaeth y DU (TTW-03-01)
Uned 02 Gwasanaeth i gwsmeriaid ym maes teithio a thwristiaeth (TTW-03-02)
Uned 03 Paratoi ar gyfer gyrfa ym maes teithio a thwristiaeth (TTW-03-03)

Unedau dewisol

Uned 04 Cyrchfannau teithio a thwristiaeth (TTW-03-04)
Uned 05 Atyniadau i ymwelwyr yn y DU (TTW-03-05)
Uned 06 Lletygarwch ym maes teithio a thwristiaeth (TTW-03-06)
Uned 07 Profiad gwaith ym maes teithio a thwristiaeth (TTW-03-07)
Uned 08 Gweithrediadau teithiau yn y DU (TTW-03-08)
Uned 09 Gweithrediadau asiantaethau teithio (TTW-03-09)
Uned 10 Y diwydiant cynadleddau a digwyddiadau'r DU (TTW-03-10)
Uned 11 Marchnata ar gyfer maes teithio a thwristiaeth (TTW-03-11)
Uned 12 Diwydiant trafnidiaeth teithwyr y DU (TTW-03-12)
Uned 13 Rolau a chyfrifoldebau cynrychiolydd cyrchfan (TTW-03-13)
Uned 14 Y diwydiant mordeithio (TTW-03-14)
Uned 15 Atyniadau treftadaeth i dwristiaid yn y DU (TTW-03-15)
Uned 16 Twristiaeth gyfrifol (TTW-03-16)
Uned 17 Twristiaeth arbenigol (TTW-03-17)
Uned 18 Teithiau busnes (TTW-03-18)
Uned 19 Adrodd straeon ar gyfer twristiaeth (TTW-03-19)
Uned 20 Tywys teithiau (TTW-03-20)
Uned 21 Rheoli argyfwng ym maes teithio a thwristiaeth (TTW-03-21)
Uned 22 Meysydd awyr y DU (TTW-03-22)
Uned 23 Ymchwilio i griw caban awyren (TTW-03-23)
Uned 24 Arweinyddiaeth ac adnoddau dynol (TTW-03-24)

Asesiad

Mae'r cymwysterau hyn yn cael eu hasesu'n fewnol ac mae eu hansawdd yn cael ei sicrhau'n allanol. Mae'r asesiad yn cynnwys un elfen: portffolio o dystiolaeth sy'n cael ei asesu'n fewnol gan staff y ganolfan a'i sicrhau'n allanol gan NCFE (rhaid i'r ganolfan gwblhau'r gwaith sicrhau ansawdd mewnol fel arfer o hyd).

Gofynion y lleoliad

Nid oes angen profiad gwaith/lleoliad mewn diwydiant.

Cyfleoedd datblygu

Gallai dysgwyr sy'n ennill y cymwysterau hyn symud ymlaen i'r canlynol:

- cyflogaeth (symud ymlaen i rolau yn y sector teithio a thwristiaeth):
 - gwasanaeth i gwsmeriaid
 - teithio a thwristiaeth
 - gwasanaethau ymwelwyr
 - lletygarwch
 - asiantaeth teithio
 - hamdden a digwyddiadau
- addysg bellach (cymwysterau lefel 3 neu uwch mewn teithio a thwristiaeth) gan gynnwys:
 - NCFE Tystysgrif Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/3)
 - NCFE Diploma Rhagarweiniol Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/4)
 - NCFE Diploma Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5463/5)
 - NCFE Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth (Cymru) (C00/5382/6).



Cysylltu â ni

NCFE
Q6
Quorum Park
Benton Lane
Newcastle upon Tyne
NE12 8BT

Ffôn: 0191 239 8000*

E-bost: customersupport@ncfe.org.uk

Gwefan: www.ncfe.org.uk

Hawlfraint NCFE © 2026 Cedwir pob hawl yn fyd-eang.

DRAFFT Fersiwn 1.0 Hydref 2026

Mae'r wybodaeth ar y Daflen Ffeithiau Cymhwyster hon yn gywir adeg ei chyhoeddi, ond mae'n bosibl y bydd yn newid.

Mae NCFE yn elusen gofrestredig (Rhif Elusen Gofrestredig 1034808) ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant (Rhif Cwmni 02896700).

Mae CACHE (Council for Awards in Care, Health and Education) ac NNEB yn nodau masnach cofrestredig sy'n eiddo i NCFE.

Mae'r holl ddeunyddiau yn y cyhoeddiad hwn yn cael eu gwarchod gan hawlfraint.

**** Er mwyn parhau i wella lefelau ein gwasanaeth i gwsmeriaid, gall galwadau ffôn gael eu recordio at ddibenion hyfforddiant ac ansawdd.***